

W935.5.240

206
55/1860

DEIGRYN

WRTH

Gofio'r Aynwentydd:

NEU,

YMWELIAD RHYW BLENTYN

A Heddan ei Berthynasan.

CASTELLNEWYDD-EMLYN:
ARGRAFFWYD GAN JOHN RICHARD DAVIES;
AC AR WERTH GAN J. D. THOMAS,
NEW SHOP, LLANDYSSIL.
1853.

X205'318230

AT Y DARLLENYDD.

NID oes yr un dyn na chydymdeimla â'r bedd; "Oblegid yno," meddai llawer plentyn "y gorwedd fy mam;" "A'r fan acw," meddai'r tad, "y gorwedd fy maban;" ac eilwaith meddai'r chwaer, "Yr wyf fi yn teimlo undeb agos â'r fynwent, oblegid y mae brawd i mi yn cysgu yn dawel yn ei chol!" Hwyrach, ddarllenydd, i ti yn ddiweddar gladdu rhyw berthynasau hoff i ti; felly minau fwy nag un! Ac wedi i mi ymweled yn bruddaidd â'u gwahanol orweddfaoedd, rhy anhawdd oedd i mi beidio ag wylo. Ac wedi'r amgylchiad yma, ac o dan y teimlad pruddglwyfus hwn y *galar-genais* (os cymwys y gair) yr hyn a gynwysa y "Deigr yn wrth gofió'r mynwentydd." Ni feddyliais am iddynt byth ddyfod o dan lygad y *bardd* na'r *beirniad*; oblegid *am* berthynasau ac *i* berthynasau y cyfansoddais. A'r hyn a ddisgwyliaf oddiwrth y boneddigion uchod, yw gadael heibio eu *mhesurau*, a rhoddi rhyddid i'r *teimlod*.

Gan fod y personau y cyfeirir atynt yn y pennillion hyn, mor adnabyddus yn ardal Llandyssil, a'u chymydogoethau, dymunwyd arnaf, a hyny yn daer, gan luaws o gyfeillion a pherthynasau o'r llefydd uchod, heblaw o fanau eraill, argraffu y llinellau yma (sef y cyntaf erioed) er boddhad i eraill. Ac yn awr, yntè, ddarllenydd teimladwy, tyred gyda mi ar daith law yn llaw i fynwentydd Llandyssil, Llwynrhydowen, a Llanwenog, i wrando ar bregethau yn cael eu traddodi gan y meirw!

"Our dying friends come o'er us like a cloud
To damp our brainless ardours, and abate
That glare of life which often blinds the wise.

Smitten friends
Are angels sent on errands full of love:
For us they languish! and for us they die!
And shall they languish? Shall they die in vain?"

YOUNG.

DEIGRYN, &c.

1. Os gwir yw y cân yr Eos
Pan y ddraenen biga'i bron,
Nes yn fud â'r adar eraill,
'Gael gwrando'n syn ar geinciau hon :
2. Effaith teimlad yw'r distawrwydd
Sydd yn mhllith holl adar nef ;
Pigau'r drain a'u hachlysuodd,
Bellach "*Philomel*" a lef!
3. Paid a gofyn beth yw'm testun—
Pa'm mor bruddaidd mae fy nghân ?
Marw! Marw! yw fy mhigyn,
Hyn a rwyfa'm pin yn mla'n,
4. Tyred, f'awen, awn dan wylo,
I artrefle'r Ywen ddu,
Sy'n chwenych byw yn mhllith penglogau
Ac ysgerbw dau feirwon lu!
5. Awn trwy'r porth i mewn i'r fynwent
Dawel yn Llandyssil draw;
Wrth gyleh-rodio trown ein llygaid
At y beddau sy ar bob llaw.
6. Ah! heh afon lydan Teif,*
Pwy mor fynych clywaist ti,
Ochaid plant, a gwaedd rhieni,
Wrth gladdu eu perth'nasau eu ?
7. F'awen, Beth yw'r gwely bychan,†
Unig iawn, a geir fan hon ;
Y mae gwedd eu wyneb llwydaidd
Yn creu galar dan fy mron ?
8. D'wed i mi pwy biau'r plentyn ?
Beth oedd enw'r baban bach ?
Beth oedd galar ei rieni
Wrth orfod canu iddo'n iach.
9. O mor aml, 'nawr y tybia
Ei mham y clywa lais ei Jane !
O mor fynych y dychmyga
'Gwela ar ei gwyneb wen !
10. Gwaedda weithiau "*lully, lully,*"
Gan sio ei dych'myngol ferch ;
Heb feddwl fawr y distaw orwedd
Mewn cul fedd 'rhon gadwa'i serch.
11. Beth mae'r garreg ar y cornel,
Hynod dawel, yma'n ddweyd ?
Tyred f'awen, trown i ddarllen
'Rhy'n mae angau wedi eu wneyd.

* Yr hon sydd yn ymdreiglo yn araf wrth odrau y fynwent.

† Yr eiddo maban es ddiniwed i Mr. a Mrs. Thomas, Shop-newydd, Llandyssil.

12. Och! ai yma gorwedd Dafydd
Jones, o'r Gellifaren Fawr,
Wedi gado'r coed a'r gellydd,
A phob llawnder ar y llawr!
13. Ar ei fedd yn awr eisteddaf,
A myfyriaf wrthyf fy hun;
Gan y marw yma dysgaf
"Mor fyr a brau yw bywyd dyn."
14. Y mae yma enwau eto
Mewn cysylltiad â'r un hwn,
Jane ac Hannah Jones a orwedd
Gyda'u tad o dan y grwn.
15. Pwy all wybod beth fuasai
'R merched bychain yma 'nawr—
Yn rhyw Sherwood ddoeth neu Hemans—
Fel rhyw ddwy oleuad fawr.
16. Och! mor fuan y gorchuddiodd,
Ac y tôdd cysgodau'r glyn,
Mewn distawrwydd prudd y beddau,
Dan gymylau'r heuliau hyn.
17. Och! fy mynwes, Pa'm y gwaedi
Wrth wel'd un arall y fan hon?
Beth mwy rhyfedd sydd yn 'run newydd*
Hwn, nâ'r mil sydd yma bron.
18. 'Rwy'n teimlo rhyw beth i mewn yma,
A dŷna f'enaid bach i'r pridd,—
Och! a orwedd yn y gladdfa
'Rhon gyd-chwariai â mi rhyw ddydd.
19. A oes yma draed yn *llonydd*
Gerddai gynt 'run llwybrau â mi,
Pan gyd-rodiem 'rhyd y dolydd,
Ar brydnawnau hafaidd cu?
20. A oes yma'n *fud* ryw dafod
Ffraeth â'm galwai lawer gwaith
Wrth fy enw, pan yn dyfod
Tua thre o unrhyw daith.
21. Beth, ai tŷbed i fod yma
'Nawr yn oer rhyw wresog law,
'Rhon â fum yn arfer siglo
Pan dda'em 'nol o'r gwledydd draw?

* Y mae pob peth yn marwolaeth Miss Anne Jones, o'r Gellifahren, ag sydd yu tueddu i ddryllio'r teimladau, ac yn ddigon braidd i dynu dagrau, hyd yn nod o'r gallestr. Dynes, ieuanc a mwynnaidd, oddeutu dwy-ar-bym-theg oed; bant yn yr ysgol yn Poulton, Bradford, Wilts.; ar fin gorphen ei haddysg; yn yr hon y mae wedi gwreiddio serchiadau llawer un, ac yn enwedig ei mham. Yr hon oedd yn addaw yn mhob ystyr fod o les a defnydd yn ei chartref a'i chymydogaeath. Ond Och! tua Nadolig diweddaf, yn lle dychwelyd mewn gorfoledd fel arferol i fwynhau y gwyliau, Beth a welaf, yn ymlusgo yn araf a phruddaidd tua'r Gelly, ond yr elor-gerbyd tor-calonus yn ciudo yn ol tua'r hen gartref, wedi marw! y ddynes brydweddol ag oedd ychydig fisoedd cyn hynny, yn gadael ei thŷ mor llawen! Tybiwn fod yr adar ar hyd y canghenau yn wylu wrth weled peth mor chwith wedi digwydd ar y ddaear.

22. D'wedwch im', A oes rhaid credu
Fod yn y bedd rhyw lygad llon,
Edrychodd arnaf nes sirioli
Ganwaith, do, y fynwes hon.
23. Chwilio wnaif fi fel caf wybod,
Pwy sydd yma i mewn dan gudd;
Mynaf sierwydd cyn bydd gorfod
Credu ei bod hi yn y^spridd.
24. 'Nawr gadawaf i'm dychymyg
Ar ei aden fyn'd yn ol,
At y gadair fach â'i siodd
Pan yn faban yn ei chol.
25. Yno gwela'i gynta'n gwenu,
Ac yn syllu ar wedd ei mham,
'Rhon sydd iddi'n mynych ganu,
Gan eu gwarchod rhag cael cam.
26. Gwela'i wedi'n yn llon-chwarae
'N ddiniwed â'i theganau mân,
Pan yn ddwy-flwydd oed neu chwaneg,
Fel plentyn ar ei daith yn mla'n.
27. Ei dilyn wnaif ar hyd y dolydd,
Pan ymlwybrai'n ddigon iach,
Trwy yr haul a thês y glenydd
I chwilio am nyth 'r aderyn bach.
28. Tua'r ysgol yn y boreu,
Gwela'i'n myn'd mewn dillad glân;
'Nawr yn aros, yna'n rhedeg,
Gan ddistaw fwmial difyr gân.
29. Eilwaith, yn yr hwyr pan ddychwel,
Ar yr aelwyd hi sydd ben;
Llon y chwardda'r holl gwmpeini
Am ei ffraeth a'i difyr sen.
30. Tyfu wnaeth nes aeth yn raddol
Bant i'r ysgol bell o dre;
Edrych arni wnes yn siriol,
Yno'n llon yn gwneyd ei lle.
31. Darllen wnaif ei haml lythyron,
Mewn rhyw adgof hyfryd iawn,
Am ei mhwyn a'i phur gyfeillach,
Am ei dysg ac am ei dawn.
32. Pan b'wy'n edrych oddiamgylch
Yn y tŷ lle 'roedd yn byw;
Gwel'd am dani fil adgofion,
Wna fy nghalon frau yn friw.
33. Yma gorwedd ei *pherdoneg*
Yn alarus am ei mhyn'd;
Ni chawn ganddo unrhyw ganiad,
Am yn ddistaw fod ei ffrynd!

34. Gwel'd y gweithiau hardd a wauodd
Y llaw sydd heddyw'n llwyd ei gwedd
A'r amryw bethau teg a blethodd
Y bysedd 'nawr sy'n llwch y bedd.
35. Gwel'd yr effaith heb yr achos,
Gwel'd ei lle heb yno ei hun,
Barodd im' fel yma ofni
Ei bod fan hon yn wael ei llun.
36. Och! fy awen, b'le yr hunodd?
Pwy á'i gwelodd pan yn myn'd?
Pwy ei hoeraidd chwys a sychodd?
Pwy ga'dd *waitio* ar ein ffrynd?
37. Ai mewn gwely mân-bluf gartre',
Yntau'n mhell bu farw hi?
Ai ei mham ga'dd sychu ei dagrau,
Yntau rhyw ddiethriaid cu?
38. Ow! yn Bradford y bu farw,
Llawer milldir faith o dre:
Er yn mhell oddiwrth ei ffryndiau,
Llawn mor agos oedd i'r Ne'.
39. Gwyddai'r "Engyl" ffordd i "Poulton"
Cystal llawn ag i'n gwlad ni:
Weithian, bellach, pa'm y cwynaf,
A galaraf am dani hi?
40. Wylo wnaif fi ar ei beddrod,
Nid am ddarfod iddi ffoi;
Ond am i'r blodyn hardd i wywo,
Am i gadwyn angau ei chloi.
41. Llawenychaf ac mi ganaf
Y dadgloi'r cadwynau'r bedd;
Pryd ceir gwel'd, yn d'od yn ddisglaer,
Ann i'r lan yn hardd ei gwedd.
42. Canaf, meddaf, wrth ymadael,
Ffarwel, ffarwel ffryndiau gwiw;
Cysgwch enyd yma'n dawel,
Hyd ceuwch glywed udgorn Duw.
43. Gwnaed y dyfroedd wrth fyn'd heibio
Ro'i ochenaid drostynt hwy;
Tröed yr awel lās i wylu
Tros fy hoff berth'nasau mwy!
44. Eto, dringaf ryw y Fairdre,
Ar fy nhaith tua chladdfa'r Llwyn;
Yno gorwedd hoff berth'nasau
Ag sy'n galw oddiwrth yf gwyn!
45. Cysegredig fel rhyw Horeb,
Ydyw'r fangre bruddaidd hon;
Mil adgofion o hen enwogion,
Gyfyd dristwch dan fy mron.

46. Ow! ai dyma'r lle bu Davis*
Yn pregethu'n felus iawn;
Gwr o ddysg, o ddawn, a rhinwedd,
A ffrydiau'r awen ynddo'n llawn.
47. Wylô 'rwyf wrth wel'd y murian
A wrandawa'i beraidd lef:
Wylô wnaf wrth gofio'r llwybrau
Ganwaith gynt dramwyai ef.
48. 'Nawr os gofyn wnaf i'w Gapel,
Ble'r Gweinidog drylliog gynt,
A ddwys-wylai pan ddesgriffiai
'R Mab Afradlon ar ei hynt.†
49. Neu i'r enwog Ysgolheigion,
B'le mae'r Athraw ddysgodd hwy
I feistrolï gwaith 'rhen Euclid,
Virgil, Homer, a llawer mwy?
50. Neu i goed a glenydd Clettwr,
Gofyn wnaf Pa le mae'r Bardd
Rodia'u glanau haf brydnawnau,
Mewn nefol hwyl fel angel hardd?
51. Clyweh o Bulpit Llwynrhydowen
Galar dwys am was i Grist,
Tyrfa eto sydd mewn dagrau—
Am eu hathraw maent yn drist!
52. Ar dy ymylion, Clettwr, gwelaf
Nodau tristwch yr un wedd;
Yn dy ddyfroedd wyt yn cwynfan
Fod y bardd yn ngwaelod bedd.
53. Eto, f'awen, trown i ddarllen
'R enwau ar y meini hyn;
'Fallai eilwaith gwelaf rywun
O'm cydnabod yn y glyn.
54. Och! ai yma ceir yn gorwedd
Yn ei fedd fy hoff dadcu!
Methu a'th gael yn Castell Hywel
Wnes, er chwilio trwy'r holl dŷ.
55. Llawer noswaith faith disgwylwyd
Am it' ddychwel 'nol i dref:
Tybiais ganwaith, mod yn clywed
Trwst dy draed a swn dy lef.
56. Hyd yn nod pan gyffrai'r eidion
Yn ei letty ganol nos,
Neu pan lefai rhyw hwyaden
Oddiar y llyn oedd ar y clôs,

* Y Parch. Mr. Davis, o Gastell Hywel; clod na un fel bardd ac ysgolhaig, sydd mor eang, fel nad oes angen i mi geisio ei helaethu trwy ddweyd rhagor yn ei gylch.

† Dywedir mai anfynych iawn y pregethai heb son am yr afradlon; ac ni soniodd erioed am dano heb wylô!

57. Neu gwynfanaidd w'r ddylluan
Oddiar y geubren dawel draw;
Yrrai i'm mynwes gryf ddisgwyliad
Fod fy hoff dadcu gerllaw.
58. Gwelais 'rhaulwen yn ymdorri
Draw o'r dwyrain bob rhyw ddyddd;
Ond tydi, i'm ofer ddisgwyl,
O'th gadwynau'th wel'd yn rhydd.
59. Ow! ai cryfach ydyw'r angau
Na dagrau plant amddifad lu!
Beth, a wyla ddim o'r creigiau
Gydaf am fy hoff dadcu?
60. Saf, fy awen fach, i synu
Fod cryn nifer yn ei bedd;—
Rachel, Thomas, a John Evans,
Yma orwedd yr un wedd.
61. Ofer 'nawr yw chwilio'u gartre';
'Nawr eu lle nid edwyn hwy:
Oll yn dawel maent mewn beddau,
Ofer im' eu disgwyl mwy.
62. Ah! Pa beth yw'r beddau newydd*
Trist eu gwyneb geir fan hon;
Y mae'r diweddar olwg bruddaidd,
Yn rhwygo 'nghalon frau o'r bron.
63. Tybiwn 'mod yn darllen ie'nctyd
Ar eu mhuriau coch eu lliw,—
Darlun teg o'r ddau wynebpryd
Ddenau pawb pan oe'nt yn fyw.
64. Rho'wch im' flodau fel y gwisgaf
Eu gwelyau bach yn hardd;—
De'wch â'r lilach glas a'r lili,
A'r tecaf friall maes o'ch gardd:
65. Yma boent dros oesau i dyfu
(Heb anadl haul i wywo eu gwedd)
Yn bortréad teg o lendid
Sarah a Rachel sy yn eu bedd.
66. B'le mae'r llygad llon edrychai
Arnaf gynt fel seraph glân?
B'le mae'r tafod pèr â'm swynai
Ganwaith, do, â'i ddifyr gân?
67. B'le yn awr y gruddiau gwridgoch,
A siriolai'r fynwes brudd?
Brysiwch, d'wedwch, os y gwyddoch
P'ôdd y byddant oll dan gudd?

* Yr eiddo dwy ferch Castell Hywel; ar ol pa rai y wylwyd llawer y mis-
oedd diweddaf yn nghymydogoeth Llandyssil. Ac y mae yn ddiâu y cofia
llawer ag sydd yn awr yn ieuanc, gyda hyfrydwch galarus, am eu sirioldeb a'u
mwyneidd-dra, pan y byddo eu penau wedi eu britho â blodau henaint.

68. Oer dywarchen! ni ddisgwyliais
Am atebiad genyt ti;
Ond â'r wledd a'r ddawns ymholais,
Lle'r â'r ie'nctyd llon yn llu.
69. Ond o fedd i fedd y clywaf
Eiriau tebyg i'r rhai hyn:—
Hoff gan angau gael y glanaf
A'r prydfertthaf lawr i'r glyn.
70. Yn lle gwisgoedd y briodas,
Yn lle'r gynau gwycha'u gwedd;
Hwy gant huno yn eu hamdo,
Neu wen amwisg yn eu bedd.
71. Yn lle'r gwely addurnedig,
Yn lle'r llenni auraidd liw;
Mewn cul feddau bach yn ddiddig
Rhwyng muriau pridd—eu cartref yw.
72. Yn lle swn caniadau'n seinio,
Ar brydnawn y neithior wledd;
Oddeutu'r elor mil sy'n wylo,
Wrth gludo'r glanaf tua'r bedd.
73. Ofer disgwyl byth daw Rachel
Eto'n ol i Troedyrhiw;
Rhaid i'w gwen a'i chàn roi ffarwel—
Och! hi aeth o dir y byw.
74. Fe ddaw gauaf, fe ddaw gwanwyn,
Haf ac Hydref yn eu tro;
Ond i'r Fairdrefach ni ddychwel
Sarah Evans, boed a fo.
75. F'allai'n fuan dychwel cyfaill
Yn ei ol o'r gwledydd draw;
F'allai'r cyntaf fydd am weled
Sarah a Rachel pan y daw.
76. Paid a d'wedyd wrtho'n frysio,
Er yn ddrylliog beth yw 'rhan;
Cadw'n ddistaw am y beddrod,
Rhag ei farw ar y fan.
77. Ac os dilyn ef i ofyn
B'le 'nawr gartrefa'r merched mwyn?
Dywed wrtho, dan och'neidio,
Yn eu bedd, yn ngladdfa'r Llwyn.
78. Ah! hen fynwent, llawer trysor
Anwyl im' sydd yn dy gôl,
Cofa'u cadw oll yn ddiogel,
Nes y dychwel Crist i'w hol.
79. Ffarwel, ffarwel, hoff berth'nasau,
Colli'm dagrau wyf wrth fyn'd
Ar fy nghilwg maes o olwg
Y fan lle huna llawer ffrynd.

80. Och ! mor llwythog a blinderog
Wyf wrth basio " Pwlybryn " ; *
Nid â f'awen i Lanwenog,
Ni fyn entro'r fynwent hyn.
81. Cilio 'nol y mae gan ofid,
Am na fedr ganu'n iawn,
Am y cewri sy yma'n gorwedd ;
Gladdfa ryfedd, O ! mor llawn.
82. Davis, Davis, † ti a welaf
Flaenaf un o'r dyrfa fawr ;
Penaf eto 'mhlith y meirw,
Fel y byw pan ar y llawr.
83. Cenaist unwaith, nad gwahaniaeth
Rhwyg y mawr a'r bach mewn bedd :
Beth, Pa fodd y gwela'i'th enw
Gynta' o bawb os y'ch 'run wedd ?
84. Ei hoff wraig a'i blant a orwedd
Yn y gladdfa hon dan gudd :
O mor rhyfedd gweled David,
Anne, a John, a Jane, mewn pridd.
85. Pe gallasai gwir ddysgeidiaeth,
Dawn, neu rinwedd, gadw dyn,
Byth ni welid wedi marw
O'r teulu duwiol yma'r un.
86. Nes i lawr yn awr mae'n gorwedd
Deulu arall cyfan bron ; ‡
Fy Nhacw a Mamgu anwyl,
Modryb Mary, a'm Ewythr John.
87. Ah ! Beth yw'r enw arall yma,
" Thomas Evans, o Drefach " ?
Beth, ai'm tad sydd yn y gladdfa !
Po'dd deu'st yma fy nhad bach !
88. O na chawn ond dweyd fy hanes
Wrthyt, er pan e'st i bant ;
Gwn y wylit yn y nefoedd,
Os nad anghoffia tad ei blant.
89. Yn y tŷ lle gynt chwareuwn
Ar dy glun yn faban llon ;
'Nawr dieithriaid nad adwaenant
Enw nhad sydd yma bron !
90. Yn yr ardd yn mhlith y blodau,
Lle'r ymrodien yn yr haf ;
Yn ngwedd rhai'n mai galar-nodau,
Am dy golli maent yn glaf.
91. Yn y parlwr teg a'r gegin,
Lle'r eisteddai mam a nhad,

* Lle rhwyg Llwynrhydowen a Llanwenog. † Yma claddwyd Davis, •
Gastell Hywel. ‡ Teulu Drefach, Llanwenog.

- I ymddiddan aml ronyn
Am eu eu fabanod mād ;
92. Mae rhyw adgof prudd a dieithr
Ar y gwelydd gwael eu gwedd,
Fod y llaw a harddai'u golwg
Mewn llonyddwch yn y bedd.
93. Nhad ! a welaist ddim o'm dagrau,
Pan rhyw foreu twyllwyd fi
Gan y forwyn, pan ddywedai
'N fuan iawn dychwelet ti ?
94. Disgwyl wnes am ddydd ac wythnos
Am i'r amser dedwydd dd'od ;—
Ffwl i'r foru, pan yn blentyn,
Felly eto'n para i fod.
95. Cenfigenais pan y clywais
Blant o'm hoed, wrth chwareu'n nghyd,
Yn ymfrostio, O mor gynnes !
Yn eu tad, ei wedd, a'i bryd.
96. Un maeslaw ofynai i minau,
B'le dy dad anwylaidd di ?
Pa'm nad ydwyt yn ymfrostio
Wrth ei ganmol, fel 'rym ni ?
97. Blentyn ! blentyn ! fe fu amser,
Pan oedd anwyl dad i mi ;
Ond heddyw'n llonydd yn Llanwenog,
Mae mewn daear dywyll ddu.
98. Blentyn ! blentyn ! aros enyd,
Yn amddifad byddi'th hun :
Heb na thad na mam gwna rhywun,
F'allai'th wel'd yn wael dy lun.
99. Nhad ! un peth a geisïaf ragor
Cyn ymadael â dy fedd,—
Lle i orwedd wrth dy ochor,
Pan yn fuan dof 'run wedd.
100. Yna f'allai pan yn tramwy
Trwy y fynwent bruddaidd hon,
Wrth fy ngwely cul y t'rawa
Bardd ei droed nes teimla'i fron.
101. Ac os cara'i awen gann
Rhyw alarnad brudd a mwyn,
Wyled ddeigryn yn Llanwenog,
Llandyssil draw a chladdfa'r Llwyn.

IEUAN BRO TYSSUL.

Mawrth, 1853.

ARGRAFFWYD GAN J. R. DAVIES, CASTELLNEWYDD.